

## Manylion cyswilt

Zoe Evans—  
Arweinydd Mathemateg GwE  
[zes@eirias.conwy.sch.uk](mailto:zes@eirias.conwy.sch.uk)

Bethan Cartwright—  
Arweinydd Mathemateg GwE  
[bethan.cartwright@ysgolglanclwyd.co.uk](mailto:bethan.cartwright@ysgolglanclwyd.co.uk)

Jo Alexander—Cynorthwy-ydd  
Gweinyddol Mathemateg GwE  
[jar@eirias.conwy.sch.uk](mailto:jar@eirias.conwy.sch.uk)



## IRIS Connect

Yn ddiweddar rydym wedi dechrau defnyddio'r pecyn IRIS Connect i gofnodi gwersi. Mae wedi bod yn hawdd iawn ei osod a'i ddefnyddio, a gall y defnyddiwr wlyio fideos a'u golygu drwy'r we. Hyd yn hyn mae IRIS Connect wedi bod yn hynod ddefnyddiol ar gyfer myfyrdod personol a datblygiad proffesiynol.

Hefyd, drwy roi'r microffon ger grwpiau penodol o ddysgwyr, gall yr athro ganolbwyntio ar drafodaethau mathemategol disgyblion a chael golwg werthfawr ar eu cynnydd yn y dasg.

Cyn bo hir byddwn yn defnyddio'r meddalwedd i ychwanegu clipiau at adnoddau gwersi.

Am ragor o wybodaeth, ewch i [www.irisconnect.co.uk](http://www.irisconnect.co.uk)



## Cyfarchion gan GwE

Helo bawb,

Yn ystod y tymor prysur hwn, rydym yn gobeithio eich bod yn dod yn eich blaen yn dda wrth baratoi am y newidiadau i Fathemateg TGAU a fydd ar ein gwarthaf.

Dyma'r newyddion diweddaraf i chi am ein gwaith, yn ogystal ag ychydig o wefannau defnyddiol.

Mae wedi bod yn wych cyfarfod â fforymau mathemateg Conwy a Sir y Fflint — diolch i chi am eich holl waith caled ac am rannu eich adnoddau a'ch syniadau. Edrychwn ymlaen at gyfarfod â fforymau siroedd eraill pan fyddant ar waith.

Sylwch ar y [newidiadau i'r cyfleoedd asesu](#) ar gyfer y TGAU Mathemateg newydd.

Pob hwyl i chi dros y cyfnod arholiadau. Os gallwn eich helpu chi a'ch cydweithwyr mewn unrhyw ffordd, mae croeso i chi gysylltu â ni.

## I ddod

- Mae disgwyl i wefan GwE [www.gwe.org.uk](http://www.gwe.org.uk) fynd yn fyw yn fuan iawn.
- Rydym wrthi'n creu enghraifft o Gynllun Gwaith, gyda phrofion asesu i bob adran, yn unol â'r meini prawf asesu newydd. Bydd y rhain yn helpu i gadw golwg ar gynnydd.
- Mae rhagor o adnoddau gwersi ar y gweill sy'n annog dysgwyr i fynd at broblemau yn drefnus, adnabod y sgiliau angenrheidiol a chymhwyso'r wybodaeth sydd ganddyn nhw eisoes i sefyllfaoedd a roddir iddyn nhw.
- Rydym wrthi'n creu tasgau dechreuol sy'n seiliedig ar gwestiynau tebyg i gwestiynau arholiad. Bydd hyn yn paratoi disgyblion ac yn datblygu eu hyder i roi cynnig ar gwestiynau trefniadol ar bapurau TGAU.
- Bydd yr holl adnoddau'n cael eu hychwanegu at wefan GwE yn fuan.

## Gwefannau defnyddiol

- [www.wjec.co.uk](http://www.wjec.co.uk) / [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk) — Mae tareth o [adnoddau](#) ardderchog yma, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys tasgau dechreuol, ymchwiliadau a thasgau cyd-destun. Mae rhai o'r rhain hefyd ar [wefan Hwb](#). Gan fod cymaint o adnoddau defnyddiol yma, rydym wedi rhoi rhestr o hypergysylltau at ei gilydd (a fydd wedi'u hychwanegu at wefan GwE), yn rhoi manylion yr adnoddau sydd i'w gweld ar fersiynau Saesneg a Chymraeg o'r wefan, a sut y maen nhw'n gysylltiedig â phynciau o faes llafur TGAU.
- [www.mathsbox.org.uk](http://www.mathsbox.org.uk) — Rydym yn gobeithio eich bod chi i gyd wedi cael eich manylion mewngofnodi o Mathsbox (os nad ydych, cysylltwch â Jo Alexander). Gobeithio bod yr adnoddau'n ddefnyddiol i chi. Yn Mathsbox byddwch yn cael hyd i dasgau setlo parod, cardiau bingo a chardiau dolen i bob pwnc, yn ogystal â thasgau i'w rhoi ar daflunydd a gweithgareddau adolygu. Mae'r rhain yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn annog cyfranogi ond ar yr un pryd yn arbed amser paratoi i chi.
- [blog.mrmeyer.com](http://blog.mrmeyer.com) — blog athro Mathemateg o America, Dan Meyer. Edrychwch ar [Three-Act Math](#) am weithgareddau cyd-destunol cyffrous gyda chyflwyniadau byr ar fideo. Hefyd awgrymiadau o bwyntiau trafod. Hefyd edrychwch ar [Graphing Stories](#), casgliad o glipiau fideo lle mae angen i ddysgwyr braslunio graff pellter-amser o'r symudiad a bortreadir.
- [www.bowlandmaths.org.uk](http://www.bowlandmaths.org.uk) — Casgliad gwych o adnoddau am ddim yn seiliedig ar ddatrys problemau cyd-destunol. Mae ynddo amrediad eang o brosiectau'r ystafell ddosbarth a thasgau asesu, yn ogystal ag arweiniad ar ddatblygiad proffesiynol. Mae'r deunydd wedi'i anelu at Gyfnod Allweddol 3, ond gellir ei addasu i oedranau a galluoedd eraill. Mae hwn yn ardderchog i annog disgyblion i ddefnyddio'u gwybodaeth a'u sgiliau, gyda rhywbeth i ennyn diddordeb pawb.
- [www.mathemateg.com](http://www.mathemateg.com) — Gwefan Gymraeg gyda phosau, cyn-bapurau ac esboniadau fideo ar gyfer TGAU a Safon Uwch, yn ogystal â chysylltau â rhagor o adnoddau. Dilynwch [@mathemateg](#) ar Twitter i gael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd.